# Rhaglen Adloniant

# Gŵyl Bwyd a Diod Caerffili

# Dydd Sadwrn 18 Ebrill 2026

| Amser | Perfformwyr |
|---|---|
| Drwy'r Dydd | The Cookalong Clwb |
| Drwy'r Dydd | Adar ysglyfaethus |
| Drwy'r Dydd | Ffair bleser |
| Drwy'r Dydd | Stondinau bwyd a diod |
| Drwy'r Dydd | Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs |
| Drwy'r Dydd | Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell |
| Drwy'r Dydd | Ffair Grefftau Lle'r Farchnad Caerffili |
| Drwy'r Dydd | Rhaglen adloniant llwyfan band Cwrt y Castell |
| 10.30am – 4.30pm | Arddangosfa coginio |
| 10am – 4pm | Gweithdai crefft |
| 10.30am | Wanda & Rhonda the Waitresses (1) |
| 11.00am | Frank Furter (1) |
| 11.30am | Wonder Kitchen Gadgets (1) |
| 12.00pm | Frank Furter (2) |
| 12.30pm | Wanda & Rhonda the Waitresses (2) |
| 1.00pm | Frank Furter (3) |
| 1.30pm | Wonder Kitchen Gadgets (2) |
| 2.00pm | Frank Furter (4) |
| 2.30pm | Wanda & Rhonda the Waitresses (3) |
| 3.00pm | Frank Furter (5) |
| 3.30pm | Wonder Kitchen Gadgets (3) |

***Gall y rhaglen hon newid**

## ***The Cookalong Clwb***

Dewch i ymuno â disgyblion lleol o Ysgol Gynradd Waunfawr rhwng 11am ac 1pm am brofiad bwyd bywiog, rhyngweithiol wrth iddyn nhw goginio eu pryd ysgol yn fyw, heb ddefnyddio cynhwysion sy'n gysylltiedig â datgoedwigo.
Rhowch gynnig ar eu 'Pot Noodle' cartref blasus, wedi'i greu ar y cyd â The Cookalong Clwb – fersiwn iach, faethlon sy'n sicr o'ch synnu. Dewch i gael blas i chi'ch hun, clywed yn uniongyrchol gan y bobl ifanc y tu ôl i'r syniad, a chwrdd ag enillydd MasterChef, James Nathan, a fydd wrth law i drafod sut mae modd gwella prydau ysgol i bobl a'r blaned.

Gyda'r elusen coedwigoedd trofannol, Maint Cymru, yn bresennol ar y diwrnod, ynghyd â vox pops, sgwrsio a digon o gyfleoedd i gymryd rhan, mae hwn yn fwy na chyfle blasu – mae'n rhan o fudiad cynyddol i ddiogelu ac adfer coedwigoedd trofannol drwy'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Ydych chi'n meddwl y gallwch chi enwi'r pum cynhwysyn pob dydd sy'n gysylltiedig â cholli coedwigoedd? Cymerwch ran mewn gêm ddiddorol, llawn hwyl i gael gwybod… efallai na fyddwch chi byth yn edrych ar eich cinio yr un ffordd eto.

***Facebook: The Cookalong Clwb***
***Gwefan: www.thepreservationsociety.co.uk***

## ***Artisan Cooks***
## ***Arddangosiadau Coginio***




Dewch i ymuno â Clover Hunter am ddiwrnod llawn arddangosiadau coginio hawdd. Bydd ryseitiau i roi cynnig arnyn nhw gartref, yn ogystal â dosbarthiadau coginio i blant. Dewch â'ch cogyddion bach addawol i goginio gyda Clover!

**Dosbarthiadau i blant**

- 10.30am Cwcis siocled
- 12pm Creu pizza
- 1.30pm Rocedi a choctels pefriog
- 3.30pm Addurno cacenni cwpan

**Arddangosiadau**

- 11.15am Tacos feta wyau a tsili hawdd
- 1pm Cyri penfras tikka gwyrdd
- 2.30pm Llysiau a radisys wedi'u rhostio gyda menyn brown a ricotta
- 4pm Bricyll mêl wedi'u rhostio gyda chnau pistasio a mascarpone.

***Gwefan: www.artisancooks.co.uk***

### *Stondinau bwyd a diod*



Dros 80 o fasnachwyr bwyd a diod gyda chacennau, bara, losin, cyffug, crystau, sawsiau, siytni, pitsa a llawer mwy o gynnyrch blasus. Mwynhewch gael blas o ddiod neu ddwy gan y nifer fawr o werthwyr gwirodydd, cwrw a seidr. Rhowch gynnig ar y gwahanol gawsiau sydd ar gael a phrynu eich ffefrynnau. Bydd digon o fwyd stryd i demtio'r blasbwyntiau … Gwyntwch yr arogl a gwylio'r bwyd poeth yn cael ei goginio o'ch blaen chi.

***Facebook: Visit Caerphilly***
***Gwefan: www.visitcaerphilly.com/cy/***

### *Marchnad Crefft a Bwyd Canolfan Siopa Cwrt y Castell – Canolfan Siopa Cwrt y Castell*



Mae Marchnad Crefft a Bwyd Canolfan Siopa Cwrt y Castell wedi'i lleoli gyferbyn â Chastell Caerffili yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell. Mae'r farchnad fisol yn arddangos busnesau bach gydag eitemau bwyd a chrefft. Gyda nifer ardderchog o ymwelwyr misol, parcio am ddim am hyd at 3 awr ac awyrgylch croesawgar, mae Cwrt y Castell bob amser yn farchnad wych i ymweld â hi.

***Facebook:*** **Castle Court Shopping Centre, Caerphilly**

### *Caerphilly Market Place Craft Fair - Morrisons*



Mae'r farchnad grefftwyr fisol hon wedi'i lleoli yn Morrisons, Caerffili ac mae'n croesawu tua 25 o grefftwyr o fusnesau bach o Dde Cymru. Mae parcio hygyrch am ddim ar gael am hyd at 3 awr.

***Facebook: Caerphilly Marketplace***

### *Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs – wrth y Senotaff*



Bydd y ffair grefftau fisol wrth y Senotaff, gyda tua 30 o grefftwyr. Gyda chelf a chrefft, addurniadau cartref a gemwaith, bydd digon o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol ar gael i'w gweld er mwyn prynu anrheg anarferol ac unigryw.

***Facebook: Crafty Legs Events***

**Falconry UK**



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos er mwyn i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael ffotograffau gyda nhw, a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

**Facebook: Falconry UK**
***Gwefan: www.falconry-uk.org***

***Canolfan Siopa Cwrt y Castell***
***Adloniant Llwyfan Band***



Bydd Llwyfan Band Canolfan Siopa Cwrt-y-Castell yn gartref i amrywiaeth gwych o grwpiau'r gymuned drwy gydol y dydd.

***Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly***

***Gwefan: www.castlecourtwales.co.uk***

***Reidiau ffair***



Bydd chwe reid ffair i blant ar waelod Cardiff Road i ddiddanu'r rhai bach! O’r tŷ hwyl gwyllt a’r reid trenau i’r trampolinau egnïol!

***Facebook: Andrew Holmes Fun Fairs***

***Facebook: J Hill's Amusements Party Hire***

**Gweithdai Crefft Creu a Chymryd**



Dewch draw i greu gwaith crefft ar thema bwyd a'i gymryd adref. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl AM DDIM!

***Facebook: Creative Workshops for Children***
***Gwefan: www.childrensworkshops.net***

***Y Gweinyddesau Wanda a Rhonda***



Yn llawn hwyl a sgwrsio! Mae ganddyn nhw droli wedi'i lwytho â byns, bwyd parti a choctels, yn ogystal â cherddoriaeth. Gallwch chi ofyn am gân, am fwyd ac am unrhyw bwnc sy'n werth hel clecs. Bob amser yn awyddus i wasanaethu a gwneud pobl yn hapus, cyn belled nad ydyn nhw wedi bwyta popeth eu hunain ac nad ydyn nhw'n brysur yn dawnsio a sgwrsio.
Byddan nhw'n dod â llawer o egni a chwerthin i unrhyw ddigwyddiad. Gwasanaeth gyda gwên!

***Teclynnau rhyfeddol i'r gegin***




Mewn bwth arddangos cegin symudol, mae Barry a Pam yn awyddus i arddangos y teclynnau cegin arloesol diweddaraf, sy'n arbed llafur. Mae eu harddangosiadau comedi yn slic ond ddim yn gredadwy, ac mae'n amlwg i siopwyr pam "nad oes unrhyw un o'r nwyddau rhyfeddol hyn ar gael yn y siopau."

Rhyfeddwch at y "fwyell lawrydd", mae'n sleisio ac yn deisio yn gyflym ac yn eratig! Dewch i weld y llestri "amhosibl eu torri", sydd â hawliau patent, a fydd yn newid y dyfodol! Rhyfeddwch at effaith dŵr sych ar gyflymu'ch amseroedd coginio...

***Mr Frank Furter***



Bydd Mr Frank Furter yn crwydro o gwmpas yr ŵyl gan ddarparu cyfleoedd gwych i dynnu lluniau.

***Glitters Girls***

GLITTER GIRLS
BRING SOME SPARKLE

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Glitter Girls y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

**Facebook:** Glitter Girls

*(All information subject to change. The information is correct at the time of production)*